*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR**

C Hanagan
Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Julia Nicholls - Gwasanaethau Democrataidd (01443 424098)

**DYMA WŶS I CHI** i gyfarfod hybrid o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal ar **DYDD MERCHER, 18FED IONAWR, 2023** am **5.00 PM.**

| AMSR | EITEM | TUDALEN(NAU) |
|---|---|---|
| 5 Munud | **ITEM 1. DATGAN BUDDIANT**<br><br>Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â'r Côd Ymddygiad.<br><br>1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a<br>2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael. | |
| 5 Munud | **ITEM 1. COFNODION**<br><br>Cadarnhau cofnodion o gyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol yn rhai cywir:<br><br>➢ Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor ar 23 Tachwedd 2022 am 3.30pm<br>➢ Cyfarfod o'r Cyngor ar 23 Tachwedd 2022 am 5.00pm | 7 - 26 |
| 5 Munud | **ITEM 1. CYHOEDDIADAU** | |
| | **LLYWODRAETHU AGORED:** | |

| | | |
|---|---|---|
| 10 Munud | **ITEM 1. DATGANIADAU**<br><br>Yn unol â Rheol 2 o Weithdrefn Llywodraethu Agored Cyfarfodydd y Cyngor, derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau Portffolio o'r Cabinet: | |
| 20 Munud | **ITEM 1. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU**<br><br>Derbyn cwestiynau'r Aelodau yn unol â Rheol 9.2 o Weithdrefn y Cyngor.<br><br>(**Nodwch:** Caniateir hyd at 20 munud ar gyfer cwestiynau.) | 27 - 34 |
| | **RHAGLEN WAITH Y CYNGOR – ER GWYBODAETH I AELODAU**<br>Rhaglen Waith y Cyngor 2022/23 | |
| | **ADRODDIADAU'R SWYDDOGION** | |
| 10 Munud | **ITEM 1. DATGANIAD O GYFRIFON RHONDDA CYNON TAF AC ADRODDIAD ARCHWILIO ALLANOL**<br><br>Trafod adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol. | 35 - 264 |
| 10 Munud | **ITEM 1. ADRODDIAD BLYNYDDOL CRONFA DEDDF EGLWYS CYMRU 2021/22**<br><br>Trafod adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol. | 265 - 320 |
| 10 Munud | **ITEM 1. CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH Y CYNGOR**<br><br>Trafod adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol. | 321 - 330 |
| 10 Munud | **ITEM 1. PREMIWM TRETH Y CYNGOR**<br><br>Trafod adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol. | 331 - 374 |
| 10 Munud | **ITEM 1. HUNANASESIAD BLYNYDDOL 2021/22 (CYNNWYS ADRODDIAD CYFLAWNIAD CORFFORAETHOL Y CYNGOR)**<br><br>Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr. | 375 - 418 |
| 10 Munud | **ITEM 1. PECYNNAU YMDDEOL YN GYNNAR O WIRFODD A DISWYDDO AR GYFER PRIF SWYDDOGION** | 419 - 422 |

| | | |
|---|---|---|
| | Trafod adroddiad ar y cyd y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol. | |
| 10 Munud | **ITEM 1. NEWID AELODAETH PWYLLGORAU**<br><br>Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu. | 423 - 426 |
| 45 Munud | **ITEM 1. RHYBUDD O GYNNIG**<br><br>**Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol:** R. Williams, S. Emanuel, L. Addiscott, M. D. Ashford, J. Barton, D. R. Bevan, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, G. Caple, J. Cook, A. Crimmings, S. J. Davies, R. Davis, A. J. Dennis, V. Dunn, E. L. Dunning, J. Edwards, J. A. Elliott, L. Ellis, R. Evans, A. S. Fox, B. Harris, S. Hickman, G. Holmes, G. Hopkins, W. Hughes, G. Jones, G. O. Jones, R. R. Lewis, W. Lewis, C. Leyshon, M. Maohoub, C. Middle, A. Morgan, N. H. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, D. Parkin, S. Powderhill, C. Preedy, S. Rees, A. Roberts, J. Smith, G. Stacey, L. A. Tomkinson, W. Treeby, J. Turner, G. L. Warren, K. Webb, M. Webber, D. Williams, G. E. Williams, T. Williams, R. Yeo.<br><br>Er nad yw'n glir o ddarllen Datganiad yr Hydref y Canghellor yn ddiweddar, mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau na fydd ei hadolygiad o'r Cynllun Rhyddhad ar Filiau Ynni ar gyfer busnesau a chwsmeriaid annomestig yn parhau y tu hwnt i fis Mawrth 2023.<br><br>Hyd yma, nid yw Llywodraeth San Steffan wedi cyhoeddi p'un a fydd unrhyw gynllun arall yn cael ei roi ar waith ac nid yw'r Llywodraeth wedi rhannu pa fath o gymorth byddai cynllun o'r fath yn ei gynnwys. Wrth gwrs, mae hyn yn broblemus i fusnesau a sefydliadau cyhoeddus.<br><br>Bydd dod â'r cymorth ynni yma i ben yn golygu y bydd angen defnyddio rhan helaeth o'r cyllid sy'n cael ei ddarparu ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus er mwyn talu'r cynnydd sylweddol mewn biliau ynni ar gyfer canolfannau hamdden, canolfannau cymuned ac efallai adeiladau cyhoeddus eraill. Mae'r Cyngor yma yn Rhondda Cynon Taf yn wynebu cynnydd gwerth 355% mewn costau ynni. Ni fydd gan sefydliadau cyhoeddus unrhyw eglurder hyd nes y bydd cyhoeddiad yn cael ei wneud, a fydd dim modd iddyn nhw gynllunio ar gyfer pwysau ar gyllidebau.<br><br>Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gynyddu budd-daliadau (yr eithriad nodedig yw'r Lwfans Tai Lleol). Fodd bynnag, trwy beidio â rhoi'r cyllid sydd ei angen ar y cymunedau yma er mwyn iddyn nhw gadw'r goleuadau ymlaen mewn adeiladau i'r gymuned hollbwysig, mae hyn fel talu'r hen a dwyn y newydd.<br><br>Rydyn ni'n annog Llywodraeth y DU i ailystyried ei pholisi aneglur ynghylch cymorth ynni ar gyfer y sector cyhoeddus tu hwnt i fis Mawrth 2023.<br><br>Yn ogystal â hyn, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd | |

| | | |
|---|---|---|
| | toriadau o ran y cymorth sydd ar gael i aelwydydd mewn tlodi tanwydd y gaeaf nesaf.<br><br>Er bydd y Cynllun Gwarant Pris Ynni yn parhau i roi cap ar gost uned o ynni, bydd pob bil ynni yn cynyddu o 1 Ebrill 2023 - bydd y Cynllun Cymorth Biliau Ynni'n dod i ben ar yr un pryd.<br><br>Mae'r Cyngor yma'n nodi:<br><br>• Bydd eithrio Cynghorau a sefydliadau'r sector cyhoeddus o'r Cynllun Rhyddhad ar Filiau Ynni yn achosi caledi ariannol sylweddol ar adeg pan fydd sawl ffactor arall yn cyfrannu at heriau digynsail mewn perthynas â'r gyllideb.<br><br>Mae'r Cyngor yma, felly, yn penderfynu:<br><br>• Gofyn bod Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu at Ganghellor y Trysorlys a'r Prif Weinidog.<br>• Galw ar Lywodraeth y DU i roi eglurder ar unwaith ynghylch ei chynlluniau i gyflwyno cynllun rhyddhad ynni i'r sector cyhoeddus y tu hwnt i fis Mawrth 2023.<br>• Galw ar Lywodraeth San Steffan i fynd cam ymhellach er mwyn helpu'r miliynau o gartrefi sy'n wynebu tlodi tanwydd trwy gydol 2023 | |
| | **ITEM 1. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD**<br><br>"Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr eitem nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 12 a 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf." | |
| 10 Munud | **ITEM 1. STRWYTHUR UWCH ARWEINWYR Y CYNGOR**<br><br>Derbyn adroddiad ar y cyd y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol. | 427 - 444 |
| | **ITEM 1. MATERION BRYS**<br><br>Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig. | |

**Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol**

**At: Pob Aelod o'r Cyngor**